NEGES GAN IDEAL-2

DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr ichi am gefnogi'r astudiaeth IDEAL. Mae'n bleser gennym ni fod cymaint o bobl yn ystyried yr astudiaeth yn fuddiol ac wedi cytuno i gymryd rhan. Yn **IDEAL-2** hoffem barhau i ddysgu mwy am beth mae'n ei olygu ichi i fod yn byw yn dda yn ystod y blynyddoedd nesaf.

IDEAL ac IDEAL-2

Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau newydd a gallwn ragori ar waith anhygoel IDEAL i ddysgu mwy am sut allwn ni gefnogi pobl fel chi i fyw gyda gorffwylltra. Bu inni fynd ati i geisio am gyllid ar gyfer rhaglen **IDEAL-2** ym mis Ionawr 2018 ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer IDEAL-2.

BETH SY'N NEWYDD GYDAG IDEAL-2?

Byddwn yn gofyn cwestiynau tebyg i rai IDEAL i weld sut / os ydy eich profiadau wedi newid dros amser. I'r rheiny sy'n cymryd rhan a chafwyd bod ganddyn nhw orffwylltra, mae'r cyfanswm o gwestiynau wedi **gostwng o 50%.** Ar gyfer gofalwyr, yn seiliedig ar yr adborth gan y rheiny fu'n cymryd rhan ac ymchwilwyr, bu inni ofalu fod y llyfrynnau mor **eglur a hawdd eu cwblhau â phosib.**

Caiff IDEAL ei ariannu gan Gymdeithas Alzheimer: 348 (AS-PR2-16-001)

NEGES GAN IDEAL-2

Yn ogystal â'r brif astudiaeth yr ydych yn gyfarwydd gyda hi, mae gennym ni nifer o gynlluniau ychwanegol ar gyfer **IDEAL-2**. Fel enghraifft, byddwn yn cydweithio gyda phobl â gorffwylltra er mwyn creu adnoddau ymchwilio newydd sy'n hawdd eu defnyddio. Nod arall inni ydy llunio drama theatr yn seiliedig ar ddeilliannau IDEAL ynghyd â datblygu dull newydd o gyfathrebu i'r rheiny sy'n ystyried ieithoedd yn her sylweddol.

BYDDWN YN EICH GWAHODD CHI

Hoffem eich gwahodd chi i ymuno gyda ni ar gyfer **IDEAL-2**.

Byddem yn gwerthfawrogi clywed mwy amdanoch chi a'ch profiadau. Bydd eich tîm ymchwil lleol yn cysylltu gyda chi i egluro sut i gymryd rhan. Does dim modd inni gynnig amser pendant ichi ynghylch hyn, gan y bydd yn dibynnu ar bryd wnaethoch chi ymuno gyda / cwblhau IDEAL.

MANYLION YNGHYLCH CYMRYD RHAN IDEAL-2?

Bydd ymchwilydd yn eich cyfarfod chi ac yn gofyn ichi sut ydych chi a gofyn am eich bywyd ers y tro diwethaf iddyn nhw ymweld â chi. Byddan nhw'n ymweld â chi'n flynyddol wedi hynny am dair blynedd yn olynol.

Byddem wrth ein bodd pe baech chi'n cynnig eich cefnogaeth barhaol ac yn cydweithio gyda ni yn ystod yr astudiaeth **IDEAL-2**.

Eich Tîm IDEAL-2 ym Mhrifysgol Exeter

Marta, Rosie, Jemma, Barbora, Annette a Linda